

**FFURFLEN MANYLION POLISI / TUDALEN FLAEN**  
**POLICY IDENTIFICATION FORM /FRONT SHEET**

<b>Teitl y Polisi:</b>	<i>Y Polisi Cardiau Adnabod Gweladwy</i>	
<b>Perchennog y Polisi:</b>	Pennaeth y Gwasanaethau i Ddysgwyr a Marchnata	
<b>Uwch Gyfarwyddwr â Chyfrifoldeb:</b>	<i>Uwch Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Academaidd</i>	
<b>Pwrpas:</b>	Pwrpas y polisi hwn yw hyrwyddo a blaenoriaethu diogelwch pawb sy'n rhan o gymuned coleg Grŵp Llandrillo Menai.	
<b>Cylch Adolygu:</b>	<i>Bob dwy flynedd</i>	
<b>Rhestr Wirio i'w Chymeradwyo (cyfrifoldeb y Perchennog):</b>	<b>I'w weithredu gan:</b>	<b>Dyddiad:</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y drafft cyntaf wedi'i uwchlwytho i Borth y Grŵp ar gyfer ymgynghoriad cychwynnol â staff (ELD)</li> </ul>	27/03/2024 - 26/04/2024	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y drafft cyntaf wedi'i anfon i'r Undebau ar gyfer pythefnos o ymgynghoriad cychwynnol (AAH)</li> </ul>	08/04/2024	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yr Asesiadau Effaith wedi'u cwblhau</li> </ul>	26/03/2024	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Tîm Strategol</li> </ul>	20/05/2024	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol (os yw hyn yn berthnasol)</li> </ul>	N/A	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd (SHE) (os yw hyn yn berthnasol)</li> </ul>	11/06/2024	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymeradwyaeth yr undebau yn y Cydbwyllgor Ymgynghorol / SHE</li> </ul>	DO/NADDO	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Polisi wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau*</li> </ul>	26/06/2024	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Polisi wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd</li> </ul>	27/06/2024	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfieithu'r Polisi a'i uwchlwytho i Borth y Grŵp</li> </ul>	03/09/2024	

# **Y Polisi Cardiau Adnabod Gweladwy yng Ngrŵp Llandrillo Menai**

Fersiwn: 1.7

Dyddiad Cymeradwyo: 27/06/2024

Dyddiad Adolygu: 27/06/2026

## **Y Polisi Cardiau Adnabod Gweladwy**

### **1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae Grŵp Llandrillo Menai'n gweithredu Polisi Cardiau Adnabod Gweladwy ar gyfer dysgwyr, staff, llywodraethwyr, ymwelwyr a chontractwr ar bob un o safleoedd y coleg.

Mae'r Polisi'n hyrwyddo ac yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelu pob aelod o gymuned coleg Grŵp Llandrillo Menai; yn sicrhau cywirdeb gweithdrefnau arholi ac asesu ac yn cydnabod amrywiaeth ein myfyrwyr a'n staff.

### **2. CWMPAS**

2.1 Nod y polisi yw atgyfnerthu ymrwymiad y Grŵp i ddiogelu ac i ddiogelwch, ac ar yr un pryd cynnal amgylchedd croesawgar ac addysgol. Mae'r polisi'n berthnasol i staff, dysgwyr, llywodraethwyr, contractwyr ac ymwelwyr yn unrhyw un o adeiladau'r coleg ac yn nodi manylion y math o ddull adnabod sy'n ofynnol ar gyfer staff, dysgwyr, llywodraethwyr ac ymwelwyr.

2.2 Bydd y coleg yn darparu laniard i bob dysgwr a gweithiwr cyflogedig fel bod modd gweld y cardiau adnabod bob amser ar safleoedd y coleg. Bydd dysgwyr ar gyrsiau masnachol yn cael Pàs i Ymwelwyr. Ystyri'r peidio â gwisgo'r cerdyn adnabod yn ymddygiad sy'n torri ein gwerthoedd a'n gweithdrefnau disgyblu. Bydd y dysgwyr neu'r staff yn cael eu cyfeirio at y Rheolwr Maes Rhaglen neu'r Rheolwr Linell Uniongyrchol ac yn cael cyfarwyddyd i wisgo eu laniard neu gerdyn adnabod gweladwy. Os bydd yn digwydd yn aml, dylid rhoi'r broses ddisgyblu ar waith.

2.3 Ni chaniateir aelodau'r cyhoedd ar unrhyw gampws neu mewn unrhyw ganolfan sy'n perthyn i'r coleg ar unrhyw adeg oni bai eu bod wedi gwneud apwyntiad ymlaen llaw, wedi archebu lle mewn amgylchedd hyfforddi byd gwaith, yn cwrdd â darlithydd neu aelod arall o staff neu'n dod i gyfarfod a drefnwyd.

2.4 Ni ddylid newid na difrodi cardiau adnabod Grŵp Llandrillo Menai. Gallai gwneud hynny arwain at gamau disgyblu gan reolwr perthnasol yn y coleg. Er mwyn sicrhau dilysrwydd, bydd lliw cardiau adnabod y myfyrwyr yn newid bob blwyddyn academaidd.

2.5 Mae'r cerdyn adnabod a'r laniard cyntaf am ddim. Mae cardiau newydd, yn gyfnewid am gerdyn coll neu gerdyn a gafodd ei ddwyn, yn £5 yr un.

2.6 Gellir darparu cardiau dros dro yn ddyddiol, ac mae'r rhain i'w cael yn y dderbynfa neu gan gynorthwydd gweinyddol y maes rhaglen.

### 3. CYFRIFOLDEBAU

- 3.1. Cyfrifoldeb dysgwyr, aelodau o staff, contractwyr ac ymwelwyr yw gwisgo laniard, cerdyn adnabod neu ddillad gwaith a brand arnynt bob tro maent ar safleoedd y coleg neu pan fyddant yn mynd â myfyrwyr ar ymweliadau allanol.**
- 3.2 Cyfrifoldeb Rheolwyr y Meysydd Rhaglen yw cysylltu â'r Gwasanaethau i Ddysgwyr i drefnu eithriadau i ddysgwyr ag anabledau sy'n golygu nad yw hi'n ddiogel nac yn ymarferol iddynt wisgo laniard.**
- 3.3 Cyfrifoldeb y Rheolwyr Llinell yw sicrhau bod eu hadroddiadau uniongyrchol yn cydymffurfio bob amser â'r Polisi a'r gweithdrefnau ynghylch Cardiau Adnabod Gweladwy.** Y rheolwyr llinell, ar y cyd â'r adran Adnoddau Dynol, sy'n gyfrifol am awdurdodi unrhyw newidiadau rhesymol i staff ag anabledau sy'n golygu nad yw hi'n ddiogel nac yn ymarferol iddynt wisgo laniard.
- 3.4 Dylai Goruchwylwyr a Thiworiaid mewn Gweithdai ddefnyddio eu doethineb mewn achosion lle nad yw hi'n ymarferol nac yn ddiogel i wisgo laniardiau e.e. mewn gwersi gwyddoniaeth ymarferol, gweithgareddau chwaraeon neu wrth symud offer neu ddefnyddio peiriannau sy'n symud.** Dylid gwisgo cardiau adnabod a laniardiau ar ddiwedd gweithgareddau o'r fath. Os oes gofyn i ddysgwyr dynnu eu laniard yn y gweithdy, dylai tiwtoriaid/goruchwylwyr sicrhau eu bod yn gwisgo'u laniard a'u cardiau adnabod gweladwy wrth adael y gweithdy.
- 3.5 Staff y Gofrestrfa / y Systemau Gwybodaeth Reoli sy'n gyfrifol am dynnu a storio lluniau dysgwyr, staff a llywodraethwyr.** Caiff cardiau adnabod a laniardiau eu dosbarthu yn ystod y broses gofrestru ar ôl derbyn y tâl priodol am adnoddau.
- 3.6 Yr Aseswyr Dysgu Seiliedig ar Waith** sy'n gyfrifol am dynnu lluniau a gwneud cais am gardiau adnabod a laniardiau i Ddysgwyr yn y Gweithle sydd angen mynediad i gampysau a chanolfannau'r coleg i ymgymryd â chymwysterau sgiliau hanfodol neu i gael mynediad i wasanaethau cefnogi. Mae'r drefn o dynnu lluniau a dosbarthu cardiau adnabod a laniardiau i ddysgwyr yn y gweithle a hyfforddeion sy'n cofrestru fis Medi i dreulio dyddiau astudio yn y coleg yr un fath â'r un i ddysgwyr eraill.
- 3.7 Staff y derbynfeydd** sy'n gyfrifol am ddosbarthu cardiau adnabod a laniardiau i ymwelwyr. Ar safleoedd sydd heb swyddfa ystadau, staff y dderbynfa sy'n gyfrifol hefyd am ddosbarthu cardiau adnabod a laniardiau i gontractwyr sy'n ymweld â'r safle.
- 3.8 Swyddogion Gweinyddol y Meysydd Rhaglen** sy'n gyfrifol, fel y bo angen, am ddosbarthu cardiau adnabod dros dro i ddysgwyr yn eu meysydd. Yn ogystal, fe ellir cael trefniadau lleol ar gyfer dosbarthu laniardiau ar rai campysau, os bydd pennaeth y coleg yn cytuno.
- 3.9 Swyddog Llywodraethu'r Grŵp** sy'n gyfrifol am sicrhau bod llywodraethwyr yn derbyn cardiau adnabod a laniardiau.
- 3.10 Dylai pob aelod o staff**  
annog y rhai nad ydynt yn dangos dull adnabod gweladwy i wneud hynny.

#### **4. CYDYMFFURFIO Â DYLETSWYDDAU'N YMWNEUD Â CHYDRADDOLDEB (CREFYDD)**

- 4.1 Mae'r Grŵp yn deall y gall rhai dysgwyr a staff ddewis dilyn codau gwisgo sy'n rhan o'u traddodiad crefyddol. Gall hyn gynnwys gwisgo penwisgoedd sy'n gorchuddio'r wyneb, e.e. fêl (niqab), gwisg sy'n gorchuddio'r wyneb a'r corff yn gyfan gwbl (burka) neu glogyn dros y corff i gyd (chador).
- 4.2 Rhaid i'r rhai sy'n dymuno gwisgo niqab, burka neu chador gael llun adnabod wyneb llawn at bwrpas diogelwch a chael mynediad i arholiadau. Gall unigolion wisgo hijab yn eu llun adnabod cyn belled â'u bod yn dilyn y canllawiau a bod eu hwyneb yn y golwg.
- 4.3 Os ydynt yn dymuno, bydd y Grŵp yn ei gwneud yn bosibl i lun y rhai sy'n gwisgo niqab, burka neu chador gael ei dynnu y tu ôl i sgrin gan aelod benywaidd o staff.
- 4.4 Bydd modd i'r rhai sy'n gwisgo niqab, burka neu chador ofyn am ail gerdyn adnabod yn dangos y gorchudd wyneb o'u dewis ond rhaid iddynt hefyd gario'r cerdyn adnabod sy'n dangos y wyneb i gyd gyda nhw. Mae ganddynt yr hawl i ofyn i aelod benywaidd o staff wirio eu hunaniaeth mewn ardal breifat yn ystod unrhyw wriad hunaniaeth arferol, mynediad i arholiadau neu yn ystod digwyddiadau pan fydd gofyn gwirio cardiau adnabod.

#### **5. NEWID ENW A/NEU RYWEDD**

- 5.1 Cyfrifoldeb yr unigolyn yw sicrhau cysondeb rhwng cofnodion y coleg a'u cerdyn adnabod colegol.
- 5.2 Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod enw dewisol y rhai sy'n newid eu rhywedd yn cael ei gofnodi ar gofnodion y coleg a bod cyfrinachedd yn cael ei gadw. Dylid cyfeirio ar y Trefnau Gweithredol ar gyfer Cydraddoldeb Traws.
- 5.3 Bydd y Grŵp yn cydymffurfio â cheisiadau am newidiadau, yn y lle cyntaf ar ôl derbyn dogfennau ffurfiol e.e. pasbort, trwydded yrru, tystysgrif priodas, tystysgrif partneriaeth sifil, tystysgrif ysgariad, tystysgrif diddymiad, Datganiad Statudol a baratowyd gan gyfreithwyr, Gweithred Newid Enw neu ddogfennau eraill a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru neu awdurdod ariannu priodol.
- 5.4 Os na fydd dogfennau ffurfiol ar gael, ac yn ôl disgrisiwn y coleg, caiff y maes 'enw adnabod' ei ddiweddarau gyda'r enw dewisol yn ein cofnodion, e.e. cofrestrau ac eDRAC. Gellir diweddarau cerdyn adnabod gweladwy dysgwr i gynnwys ei 'enw adnabod'. Fodd bynnag, cyn cytuno ar y newid hwn, rhaid i'r dysgwr allu darparu dogfennau swyddogol gyda'i enw swyddogol. Bydd angen defnyddio'r dogfennau hyn i gael mynediad i arholiadau. Gall methu â chyflwyno'r dogfennau hyn os nad yw enw swyddogol y dysgwr yn cael ei ddangos ar y cerdyn adnabod arwain at ddysgwr yn peidio â chael sefyll yr arholiad. *Fel arfer, byddai'r ddogfen yn fath o brawf adnabod ffotograffig, fel pasbort neu drwydded yrru. Os bydd Sefydliad Dyfarnu angen dogfennau adnabod mwy penodol, yna byddwch yn cael gwybod am hyn ymlaen llaw.*
- 5.5 Er nad oes gofyniad cyfreithiol, caiff unigolion sydd heb ddogfennau ffurfiol yn eu henw newydd wybodaeth am fanteision posibl cael Datganiad Statudol gan gyfreithiwr, y gellir ei ddefnyddio at ddibenion eraill fel cyhoeddi tystysgrifau cymwysterau gan fyrddau arholi.

- 5.6 Cyfrifoldeb y dysgwyr neu'r aelodau staff yw sicrhau bod eu manylion yn gyfredol ar system y coleg. Rhaid i ddysgwyr lenwi ffurflen newid manylion sydd i'w chael gan yr adran Gwasanaethau i Ddysgwyr.
- 5.7 Gall dysgwyr ofyn am i Systemau Gwybodaeth Reoli GLIM ddefnyddio'r rhagenwau a ffafrir ganddynt, gan gydnabod eu hunaniaeth unigryw, trwy lenwi ffurflen newid manylion yn y Gwasanaethau i Ddysgwyr. Serch hynny, mae'n bwysig nodi na fydd hynny bob amser yn cael ei dderbyn gan fyrddau arholi allanol, sy'n gweithredu'n annibynnol o bolisiau'r coleg. Nid yw rhagenwau'n cael eu cynnwys ar gardiau adnabod gweladwy.
- 5.8 Rhaid i staff sy'n dymuno newid eu henw neu rywedd roi gwybod i'r adran Adnoddau Dynol am eu dewis.

## **6. GWEITHDREFNAU YNGHYLCH CARDIAU ADNABOD GWELADWY**

### **GWISGO CARDIAU ADNABOD A LANIARDIAU**

- 6.1. Mae'n ofynnol i ddysgwyr, staff, llywodraethwyr, ymwelwyr a contractwyr wisgo cardiau adnabod a laniardiau yn amlwg o gwmpas y gwddf fel bod modd eu hadnabod yn gyflym pan fo angen.
- 6.2 Er mwyn gallu adnabod y person, rhaid i'r lluniau ar gardiau adnabod y coleg ddangos y wyneb i gyd a dylid eu gwisgo'n wynebu am allan. Ni chaniateir gwisgo hetiau mewn lluniau.
- 6.3 Dim ond y sawl sy'n gwisgo cerdyn adnabod a laniard dilys y coleg sydd â'r hawl i ddefnyddio cyfleusterau fel y ffreutur, y llyfrgell a'r ganolfan chwaraeon.
- 6.4 Gofynnir i bob ymwelydd roi gwybod yn y dderbynfa ei fod wedi cyrraedd, arwyddo i mewn a derbyn cerdyn adnabod a laniard a ddylai gael ei wisgo'n amlwg bob amser. Yn ddieithriad, dylai staff sy'n trefnu cyfarfodydd drefnu i gwrdd ag ymwelwyr yn y dderbynfa, eu hebrwng i'r cyfarfod a sicrhau eu bod yn dychwelyd i'r dderbynfa i arwyddo allan cyn gadael.
- 6.5 Mae'n ofynnol i bob llywodraethwr wisgo cerdyn adnabod a laniard y coleg ar safle'r coleg.
- 6.6 Bydd Contractwyr Lled Barhaol (er enghraifft, Glanhawyr, Staff Diogelwch, Staff ar Gontractau Arlwygo) neu Staff Dros Dro (er enghraifft, Gweithwyr Asiantaeth, staff gweinyddol dros dro neu staff addysgu dros dro) sydd angen cael eu fetio yn cael laniard a cherdyn adnabod staff GLIM. Cyfrifoldeb y rheolwr llinell fydd sicrhau bod yr unigolyn yn cael y laniard a'r cerdyn adnabod priodol a bod y laniard yn cael ei dychwelyd ar ddiwedd y gyflogaeth gyda GLIM. E.e. staff Diogelwch, Glanhawyr, staff Dros Dro sy'n cefnogi dysgwyr.
- 6.7 6.9 Mae gofyn i gontractwyr rheolaidd e.e. gyrwyr sy'n cludo nwyddau, casglwyr sbwriel a swyddogion cynnal a chadw wisgo dillad gwaith neu iwniform briodol a chario cardiau adnabod isgontractwyr bob amser. Dylai staff fod yn barod i herio contractwyr os nad ydynt yn eu lleoliadau arferol.
- 6.8 Bydd gofyn i gontractwyr eraill arwyddo i mewn ac allan yn y Swyddfa Ystadau, Swyddfa'r Gofalwr

neu'r Dderbynfa fel y bo'n briodol a disgwylir iddynt ddarparu tystiolaeth eu bod yn gweithio i'r cwmni drwy gyflwyno dull adnabod priodol a gwisgo dillad gwaith neu iwniform y cwmni. Rhaid dychwelyd y pàs i ymwelwyr a'r laniard i'r dderbynfa / swyddfa'r gofalwr/ y swyddfa ystadau ar ddiwedd pob diwrnod.

- 6.9 Os bydd rhywun yn honni ei fod yn ymwelydd ond yn methu dangos prawf o bwrpas ei ymweliad, gofynnir iddo adael tir y coleg. Os bydd angen gwneud hynny, bydd rheolwr ar ddyletswydd neu aelod o dîm diogelwch y coleg (os ar gael) yn ei hebrwng oddi ar y safle. Mewn achosion difrifol, neu os bydd perygl i iechyd, diogelwch neu les dysgwyr, staff ac ymwelwyr, bydd yr Heddlu'n cael eu galw.
- 6.10 6.12 Er mwyn cynorthwyo staff a dysgwyr i adnabod grwpiau gwahanol ar safleoedd y coleg bydd lliw a blwyddyn cardiau adnabod y coleg yn newid bob blwyddyn academiaidd.
- 6.11 Mewn achosion lle na all Dysgwyr neu Staff wisgo laniard am resymau meddygol, rhaid hysbysu'r Rheolwr Maes Rhaglen neu'r Rheolwr Llinell Uniongyrchol a fydd yna'n cysylltu â'r adran berthnasol i drefnu dull arall o arddangos y cerdyn adnabod gweladwy.

#### **Dysgwyr:**

Bydd holl ddysgwyr GLIM, yn cynnwys dysgwyr Addysg Bellach, Addysg Uwch a Dysgu Seiliedig ar Waith, yn gwisgo laniard o'r un lliw a chynllun. (Gweler adran 9 am y dull o adnabod siaradwyr Cymraeg). Bydd y Grŵp yn newid lliw laniardiau'r dysgwyr bob dwy flynedd. Bydd y cerdyn adnabod gweladwy a lliw'r cerdyn yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol ac fe fydd yn dangos y flwyddyn astudio'n amlwg ac a yw'r dysgwr yn dilyn cwrs AB, AU, Dysgu Oedolion yn y Gymuned neu Ddysgu Seiliedig ar Waith.

#### **Dysgwyr o dan 16 oed a dysgwyr y bartneriaeth ysgolion:**

Laniard PIWS (gweler adran 9 am y dull o adnabod siaradwyr Cymraeg). Bydd y cerdyn adnabod gweladwy yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol ac fe fydd yn dangos y flwyddyn astudio'n amlwg. Bydd y cerdyn yn dangos bod y dysgwr o dan 16 oed a/neu'n ddysgwr y bartneriaeth ysgolion.

**Staff :** Bydd holl staff GLIM yn gwisgo laniard o'r un lliw a chynllun a fydd yn dangos eu bod yn gweithio i GLIM.

**Ymwelwyr:** LANIARD GWYRDD ac YMWELYDD/VISITOR arno

**Dros Dro:** Laniard MELYN a logo GLIM a DROS / TEMPORARY arno

**Contractwyr:** LANIARD COCH a logo GLIM a CONTRACTWR/CONTRACTOR arno

**Llywodraethwyr:** Byddant yn cael laniard GLIM newydd gyda bathodyn pin i ddangos eu bod yn Llywodraethwyr. Logo Cymraeg fel y bo'n briodol (gweler adran 9)

Cardiau Adnabod Newydd - Bydd bathodynau pin ar gael i staff cefnogi sy'n rhoi cymorth wyneb yn wyneb i ddysgwyr a hefyd i Lywodraethwyr.

## **7. DOSBARTHU A DYCHWELYD CARDIAU ADNABOD A LANIARDIAU**

- 7.1 Caiff cardiau adnabod a laniardiau eu dosbarthu gan staff y Gofrestrfa i ddysgwyr AB, AU a Dysgu Seiliedig ar Waith (fel y bo'n briodol) yn ystod y broses gofrestru ar ôl derbyn y tâl priodol am adnoddau (os yw hyn yn berthnasol).
- 7.2 Os posibl, ar ddiwrnod cyntaf y cwrs mae Rheolwyr y Meysydd Rhaglen yn gyfrifol am gysylltu â'r Gofrestrfa i gadarnhau'r trefniadau ar gyfer tynnu lluniau'r dysgwyr priodol.
- 7.3 Aseswyr Dysgu Seiliedig ar Waith sy'n gyfrifol am dynnu lluniau a gwneud y trefniadau angenrheidiol i gael cardiau adnabod i ddysgwyr yn y gweithle sydd angen mynediad i safleoedd y coleg. Ar ôl iddynt gael eu hargraffu bydd y cardiau adnabod a'r laniardiau ar gael yn y dderbynfa i'r dysgwyr eu casglu.
- 7.4 Os yw'n bosibl, dylai dysgwyr sydd wedi cwblhau eu cyrsiau ddychwelyd eu laniard a'u cerdyn adnabod gweladwy i'w tiwtoriaid personol ar ddiwedd eu cwrs. Bydd y Gwasanaethau i Ddysgwyr yn gyfrifol am gasglu'r rhain gan y Meysydd Rhaglen ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.
- 7.5 Bydd angen i Diwtoriaid Personol sicrhau, lle bo hynny'n bosibl, bod dysgwyr sydd wedi gadael eu cwrs am unrhyw reswm yn dychwelyd eu laniard a'u cerdyn adnabod gweladwy.
- 7.6 Ar derbyn eu cyflogaeth yn GLIM, neu os ydynt wedi'u hatal o'u gwaith, bydd angen i aelodau staff ddychwelyd eu laniard a'u cerdyn adnabod gweladwy i'r adran Adnoddau Dynol neu'u Rheolwr Llinell.

## **8. CARDIAU ADNABOD NEWYDD, LANIARDIAU A PHASYS DROS DRO**

- 8.1 Bydd dysgwyr sydd angen cardiau adnabod a laniardiau yn eu cael wrth gofrestru.
- 8.2 Rhaid i ddysgwyr nad ydynt yn gwisgo laniardiau a chardiau adnabod am eu bod wedi eu hanghofio fynd at gynorthwydd gweinyddol eu maes rhaglen neu'r Dderbynfa fel y bo'n briodol i dderbyn pàs dros dro am un diwrnod.
- 8.3 Dylai dysgwyr ddychwelyd y laniard dros dro a'r pàs ar ddiwedd y dydd i'r lle y cafodd ei ddsbarthu ohono.
- 8.4 Bydd y Tiwtor Personol yn cael gwybod am bob dysgwr sydd wedi gofyn am gerdyn adnabod dros dro.
- 8.5 Rhaid cael cardiau adnabod newydd yn lle'r rhai a gollwyd. Codir £5 am y rhain ac maent i'w cael o'r Gofrestrfa neu'r Adran Systemau Gwybodaeth Reoli neu gan Aseswyr Dysgu Seiliedig ar Waith.
- 8.6 Os bydd myfyrwyr yn colli neu'n anghofio eu cerdyn adnabod a/neu laniard fwy na thair gwaith bydd gofyn iddynt:
- ddod o hyd i'w cerdyn adnabod a/neu laniard; neu
  - dalu £5 am gerdyn adnabod a laniard newydd a
  - bydd parhau i wneud hyn yn arwain at gamau disgyblu.
- 8.7 Bydd gofyn i staff sy'n anghofio eu cerdyn adnabod a/neu laniard arwyddo i mewn fel ymwelwyr a derbyn laniard dros dro.



8.8 Bydd staff sy'n cael eu canfod heb eu cerdyn adnabod ar fwy na thri achlysur yn cael cais i gyfarfod â'u rheolwr i drafod y rhesymau neu unrhyw amgylchiadau lliniarol. Gall hyn arwain at gamau disgyblu.

## 9. DWYIEITHRWYDD

9.1 Bydd pob cerdyn adnabod yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog ac yn unol â Pholisi a Safonau'r Gymraeg yn y Grŵp.

9.2 Bydd tri math o laniard ar gael sef Siaradwr Cymraeg, Dysgu Cymraeg a Ddim yn Siarad Cymraeg. Anogir staff i wisgo'r laniard sy'n disgrifio orau eu gallu a'u hyder i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg.

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cwblhawyd yr asesiad gan:	Siân Pritchard	Dyddiad:	25/03/2024
Cymeradwywyd yr asesiad gan:	Angharad Roberts	Dyddiad:	25/03/2024

Ystyriaeth	Ymateb	Gofynion / camau rheoli arbennig
Pa grwpiau a warchodir a allai fod dan anfantais yn sgil y polisi neu'r broses?	Ni chredir y bydd y polisi'n rhoi unigolion o unrhyw grwpiau a warchodir dan anfantais.	
Pa grwpiau a warchodir a allai gael budd o'r polisi neu'r broses?	Mae unigolion o wahanol gefndiroedd crefyddol yn cael ystyriaeth yn y polisi a rhoddir arweiniad clir i unigolion ar sut i gadw at y polisi tra hefyd yn dilyn eu harferion crefyddol.  Cydnabyddir yn y polisi y bydd yr unigolion hynny y gallai eu hanableddau eu hatal rhag gwisgo laniard yn cael eu cefnogi gyda hyn.	Yn adran 4 amlinellir y gofynion arbennig ar gyfer y rhai sy'n gwisgo gwisg grefyddol a'r rhai sydd naill ai wedi neu a fydd yn newid eu rhywedd.
A yw'r polisi'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn meithrin cysylltiadau da?	Ydi, rhoddir ystyriaeth i rai o grefyddau penodol ac i'r rhai sydd naill ai wedi neu sy'n newid eu rhywedd er mwyn gallu bod yn gwbl drw i'w hunaniaeth wrth ddilyn y polisi pwysig hwn sy'n sicrhau diogelwch pawb ar y campws.	
A allai unrhyw ran o'r broses wahaniaethu'n anghyfreithlon?	Na	
A oes polisiau eraill y mae angen eu newid er mwyn ategu effeithiolrwydd yr un hwn?	Na	
Casgliad	Parhau â'r polisi	



LLOFNOD:	Siân Pritchard	Dyddiad:	25/03/2024
----------	----------------	----------	------------

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Cwblhawyd yr asesiad gan:	Siân Pritchard	Dyddiad :	25/03/2024
Cymeradwywyd yr asesiad gan:	Angharad Roberts	Dyddiad :	25/03/2024

Ystyriaeth	Ymateb	Gofynion / camau rheoli arbennig
Pa effeithiau cadarnhaol, os o gwbl, a gaiff y penderfyniad polisi ar gyfleoedd bobl i ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?	Croesawir bod y diweddariad i'r polisi yn cynnwys laniardiau lle gall staff ddewis dangos eu bod yn 'Dysgu Siarad Cymraeg'. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y rhai sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg (gan nad yw llawer o staff sy'n dysgu ar hyn o bryd yn ddigon hyderus i wisgo'r laniard Cymraeg ac felly nid ydynt yn dangos bod ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg).	
Pa effeithiau andwyol, os o gwbl, a gaiff y penderfyniad polisi ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?	Dim. Bydd y polisi'n annog unigolion i ryngweithio a staff y Grŵp yn y Gymraeg, a chefnogir hyn gan y logo Cymraeg Gwaith. Bydd cyflwyno'r laniard Dysgu Cymraeg newydd yn cefnogi hyn ymhellach.	Y Panel Iaith: Bydd cardiau nodiadau'r polisi ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg

A oes digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i weithredu'r polisi neu'r weithdrefn? Os nad oes, pa gamau a gymerir i sicrhau bod digon o staff ar gael, a phryd?	Oes, staff y derbynfeydd fydd yn dosbarthu'r laniardiau ac mae gan holl dderbynfeydd y Grŵp staff dwyieithog, yn ogystal â'r adrannau gwasanaethau i ddysgwyr ac MIS.	
A yw'r polisi neu'r weithdrefn yn cydymffurfio â Pholisi Iaith Gymraeg Grŵp Llandrillo Menai a'r Hysbysiad Cydymffurfio a dderbyniwyd mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg?	Ydi	
Casgliad	Parhau â'r polisi	

LLOFNOD:	Angharad Mai Roberts	Dyddiad:	25.03.2024
----------	----------------------	----------	------------